
Y CYNGOR DYDD IAU, 5 MAWRTH 2020

Yn bresennol: Y Cyngorydd Edgar Wyn Owen (Cadeirydd);
Y Cyngorydd Simon Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cyngorwyr: Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

Hefyd yn bresennol: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Rhun ap Iarll (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith), Eirwyn Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) (ar gyfer eitem 8), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) (ar gyfer eitem 9), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol) (ar gyfer eitem 13) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyngorwyr Anwen Davies, Selwyn Griffiths, Charles W.Jones, Aeron Jones, Linda Ann Jones, Dewi Owen, Peter Read ac Angela Russell.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr, 2019 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Swyddog Monitro fuddiant personol yn eitem 8 - Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor 2020/21 - ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, gadawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Linda Ann Jones ar golli ei gŵr yn ddiweddar;
- Y Cynghorydd Angela Russell ar golli ei thad yn ddiweddar;
- Teulu Bob Daimond, cyn-gyfarwyddwr Priffyrdd Cyngor Gwynedd, a fu farw'n ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Safodd y Cyngor fel arwydd o barch.

Croesawyd y Cynghorydd Linda Morgan i'r cyfarfod yn dilyn anhwylder diweddar.

Dymunwyd yn dda i'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Charles W. Jones, oedd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd.
- Y Cyngorwyr Aeron Jones, yn dilyn anhwylder diweddar.

Llongyfarchwyd Elfyn Evans ar fod y Prydeiniwr cyntaf i ennill Rali Sweden. Nodwyd ei fod yn arwain pencampwriaeth y byd ar y funud, a dymunwyd pob lwc iddo dros weddill y bencampwriaeth.

5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

6. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

7. CWESTIYNAU

(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)

(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Annwen Hughes

“Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar y bydd niwed yn cael ei wneud i'r diwydiant amaeth ac economi cefn gwlad os bydd cynghorau sir yn parhau i werthu eu stoc o ffermydd, gofynnaf yma heddiw am sicrwydd nad oes gan y Cyngor hwn fwriad i feddwl am werthu'r mân-ddaliadau sydd yn ei berchnogaeth?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago

“Mae'r Stad Manddaliadau yma yn rhoi grym i ni dros siapiau yr economi, yr amgylchedd a'r iaith yn yr ardaloedd yma, felly nid oes yna fwriad i wneud hynny o gwbl.”

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Annwen Hughes

“Oes modd cael gwybod faint o incwm mae'r Cyngor yn wneud o'r manddaliadau hyn yn flynyddol?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago

“10 mlynedd yn ôl, roeddem yn colli £17,000 y flwyddyn, a llynedd bu i ni ennill £31,000, rwy'n credu. Mae hyn i gyd oherwydd y gwaith da mae'r staff yn ei gyflawni, a hoffwn ddiolch yn fawr iddyn nhw am hynny.”

(2) Cwestiwn gan y Cyngorydd Dewi Roberts

“Pa gynlluniau sydd wedi'u darparu gan y Cyngor ynglŷn â Coronafeirws ac ydi'r cynlluniau hyn a'r wybodaeth ar gael i staff a chynghorwyr?”

Diolchodd yr aelod i'r Prif Weithredwr am yrru neges allan i'r cynghorwyr a'r staff ers iddo anfon ei gwestiwn i mewn.

Ateb gan yr Arweinydd, y Cyngorydd Dyfrig Siencyn

“Mae hwn yn amlwg yn gwestiwn amserol iawn ac mae hyn yn fater o drafodaeth a phryder i ni i gyd yn ddyddiol.

Bydd pob Aelod erbyn hyn wedi derbyn neges gan y Prif Weithredwr sy'n crynhoi ymdrechion y Cyngor i baratoi ac ymateb i ymlediad posibl Coronafeirws i Wynedd. Mae'r neges hwnnw yn pwysleisio mai lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ymateb i'r haint ac mai rôl cefnogi sydd gan y Cyngor hwn a phob awdurdod lleol arall.

Nodir bod y Cyngor wedi cymryd y camau canlynol hyd yma:

- Ymgynnull cyfarfod o benaethiaid / uwch swyddogion o bob adran er mwyn cyd-gordio ein paratodau ac ymateb - mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith yn barod a bydd yn cyfarfod yn wythnosol o hyn allan;
- Darparu arweiniad i reolwyr o ran beth i'w wneud os ydynt yn derbyn ymholiadau am y firws gan staff neu gan aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys doler i dudalennau lechyd Cyhoeddus Cymru ar y we;
- Mae gwbyodaeth wedi ei rannu gyda thrwy staff y Cyngor yn ogystal – gwnaethpwyd hyn drwy gyfryngau'r rhwydwaith rheolwyr, y fewnwyd, a grŵp Facebook staff a phosteri o gwmpas lleoliadau gwaith. Bydd ychwaneg o wybodaeth yn cael ei rhannu os a phryd caiff ei chyhoeddi gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Manteisir ar y cyfle yma i'ch cyfeirio at wefan lechyd Cyhoeddus Cymru am y cyngor diweddaraf. Mae'r ddolen i'r wefan honno wedi'i chynnwys yn neges y Prif Weithredwr i chi.”

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Dewi Roberts

“Pryd fydd y cynllun argyfwng ar gael ynglŷn â'r Coronafeirws, ac ydi'r adnoddau sydd gan y Cyngor yn ddigon i ymateb i'r sefyllfa yn y dyfodol?”

Ateb gan yr Arweinydd, y Cyngorydd Dyfrig Siencyn

“Rydw i'n ymddiried yn ein penaethiaid i weithredu ar hwn a gall y Prif Weithredwr fanylu os ydi o'n teimlo fel gwneud hynny. Rydw i wedi bod yn rhan o drafodaethau rhwng awdurdodau lleol, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae yna gydweithio ymysg cynhorau i ddeall beth rydym yn ei wneud. Mae'n faes newydd ac mae yna gwestiynau yn codi yn ddyddiol o safbwynt pwerau'r Cyngor a phwy sy'n gweithredu, ayyb. Un neges fyddwn yn ei rhoi fyddai mai dilyn arweiniad gwyddonol a meddygol yr arbenigwyr sydd angen wneud yn fan hyn, a bydd hwnnw'n glir i ni. Rwyf ar ddeall hefyd bod iechyd cyhoeddus Cymru yn cysylltu â'r Cyngor yn ddyddiol

i roi gwybodaeth i ni, ac fel mae'r peth yn datblygu, bydd raid i ni edrych ar y sefyllfa. Os ydym yn edrych ar y sefyllfa waethaf un, nid oes gennym ddigon o adnoddau yn y bôn, a bydd raid i ni wneud y gorau o'r hyn sydd gennym. Ond mae'n destun pryder sut ydym yn cynnal gwasanaethau sydd mor hanfodol i'r bobl fwyaf bregus. Mi fyddai rhagor o adnoddau ariannol o gymorth, ond yn y pen draw, nid oes gennym yr adnoddau dynol, mae'n debyg, i wneud y gwaith i gyd. Ond rwy'n credu mai'r neges yw i ni ei gymryd yn ddyddiol, cadw llygaid ar yr hyn sydd gennym, ar y gweithdrefnau sydd gennym, ac addasu fel mae'r clwy'n datblygu, gan obeithio wir nad ydym yn mynd i'r pellafion eithaf. Fel roeddwn yn dweud, mae yna gydweithio agos. Roeddwn yn derbyn poster heddiw gan un o'n penaethiaid, sef poster gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, a byddwn yn rhannu'r math yma o wybodaeth fel mae'n dod i mewn."

Ateb pellach gan y Prif Weithredwr

"Mae'r cynllun argyfwng ar gael rwan os ydych yn dymuno ei weld. Hoffwn danlinellu mai cynllun gweithredol ydyw i ymateb i pandemig fflw mwy generig – nid yw'n sôn am y Coronafeirws, ond rydym, fel swyddogion, yn ail-ymweld ag o i'w brofi yn erbyn y cyngor rydym yn dderbyn gan y swyddogion gwyddonol er mwyn gweld a yw'n mynd i ddal i fyny i'r hyn rydym yn ddisgwyl. Gallwn drefnu i chi ac unrhyw aelod arall gael copi unrhyw adeg y byddech yn dymuno hynny."

(3) Cwestiwn gan y Cyngorydd Paul Rowlinson

"Yn Rhagfyr 2017, pasiodd y cyngor y cynnig canlynol:

"PENDERFYNWYD bod Cyngor Gwynedd yn galw am drefniant fel y bydd hanes Cymru yn cael blaenoriaeth mewn gwersi hanes ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa bresennol lle mae diffygion yn dysgu ein hanes a'n hunaniaeth i bob pwrpas yn annerbyniol. Mae datblygiad y cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus yn gyfle i unioni'r cam yma a bydd angen datblygu adnoddau angenrheidiol dwyieithog i alluogi i athrawon ddysgu hanes Cymru i'r plant. Felly galwn ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau angenrheidiol, yn cynnwys datblygu adnoddau dwyieithog, i gywiro'r diffyg hwn a hynny yn ddiymdroi."

A all yr Aelod Cabinet dros Addysg roi diweddariad i ni ar beth mae ein Cyfarwyddwr Addysg ni yn ei wneud a beth mae GwE yn ei wneud i sicrhau y bydd hanes Cymru yn cael lle teilwng yn y cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu a bod adnoddau priodol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn cael eu datblygu'n amserol i alluogi i hyn ddigwydd?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cyngorydd Cemlyn Williams

"Rwy'n croesawu'r sylwadau a'r cwestiwn, ac yn cytuno'n llwyr y dylai hanes Cymru gael blaenoriaeth mewn gwersi hanes ymhob un ysgol yng Nghymru.

Nodaf, serch hynny, wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm newydd bryder mwy cyffredinol am ddiffyg gweithlu dwyieithog, ac na fydd modd addysgu hanes Cymru oni bai fod gennym nifer ddigonol o athrawon cyfrwng Gymraeg i addysgu, ac i sicrhau y byddwn drwy'r gyfundrefn addysg yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru yn ei nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Rydym yn ffodus iawn yng Ngwynedd gyda'r gyfundrefn addysg yn meddu ar weithlu dwyieithog medrus; gweithlu sydd yn awyddus i gynnal Cymreictod ac ymwybyddiaeth o hanes Cymru a hunaniaeth ymysg ein plant a'n pobl ifanc.

Yma yng Ngwynedd y cychwynnodd y Siarter Iaith a thân yn y bol dros hyrwyddo'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig ymysg ein plant gan godi ymwybyddiaeth o'n diwylliant a'n hanes, gan annog a chynyddu hyder ein plant i siarad Cymraeg.

Gobeithiaf weld hanes Cymru'n rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd pan ddaw i rym, ac edrychaf ymlaen at barhad gwaith caled gweithlu ein hysgolion i sicrhau Cymreictod ac ymwybyddiaeth o hunaniaeth Gymreig, hanes a threftadaeth ymysg ein plant a'n pobl ifanc."

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Paul Rowlinson

"Ydych yn cytuno â Phwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Cynulliad y dylid cynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes, ac a fyddwch chi'n pwysu ar y Gweinidog i dderbyn yr argymhelliad pwysig hwn, a hefyd yn ceisio cefnogaeth gan awdurdodau addysg eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru?"

Ateb gan yr Aelod Cabinet Addysg, y Cyngorydd Cemlyn Williams

"Mae'n gwbl amlwg i mi nad ydi'r Gweinidog yn gwerthfawrogi hanes Cymru, ac rwy'n bwriadu ysgrifennu at y Gweinidog a chymryd i ystyriaeth y sylw mae'r aelod wedi'i wneud."

(4) Cwestiwn gan y Cyngorydd Gareth Jones

"Bob blwyddyn mae Cyngor Gwynedd yn anfon ffurflen 'Ymholiad Aelwyd Blynyddol' i bob cartref i'r preswlydd wirio fod enwau'r rhai sydd yn byw yn y tŷ o oed pleidleisio yn gywir. Dan y pennawd 'Cenedligrwydd' printiwyd y gair 'Prydeinig'. Bob blwyddyn felly mae trigolion Gwynedd yn gorfod derbyn ' Prydeinig / British' neu dalu dirwy o £1,000. Yn ôl nifer o etholwyr sydd wedi cysylltu â mi mae'n hen bryd newid y drefn amhoblogaidd hon a chynnig dewis i bobl yn hytrach na gorfodi un ac oll i dderbyn yn wasaidd y label 'Prydeinig' .

Pa gamau mae Cyngor blaengar a chynhwysol Gwynedd yn eu cymryd i sicrhau y newidir y drefn bresennol a chydabod a pharchu'r amrywiaeth o bobl sydd yn byw yng Ngwynedd trwy roi dewis i'w dinasyddion i gofnodi eu hunaniaeth fel Cymro / Cymraes / Prydeiniwr / Prydeinwraig / Albanes / Ffrancwr / Gwyddeles /..... ? "

Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cyngorydd Nia Jeffreys

"Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, swydd statudol sydd gan y Prif Weithredwr, yn ymgymryd â chanfas statudol blynyddol ar gyfer cofrestru etholiadol. Gwneir hyn drwy'r Tîm Etholiadau yn y Gwasanaethau Cyfreithiol. Fel rhan o'r broses cyflwynir Ffurflen Ymholiad Aelwyd i bob eiddo anheddol yng Ngwynedd yn nodi beth sydd yn y gofrestr. Nid oes hawl gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol i ddiwygio cynnwys penodol y llythyr. Daw'r 'Prydeinig' yn syth oddi ar y Gofrestr Etholwyr sydd yn cael ei atgynhyrchu yn y ffurflen ac yn deillio o'r diffiniad statudol o genedligrwydd.

Mabwysiadwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cyngor yn Hydref 2015 yn beirniadu ffurf y llythyr ac yn gofyn i lythyr gael ei anfon at y Gweinidog ar Gyfer Diwygio'r Cyfansoddiad ar y pryd, John Penrose AS, i ofyn am ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Ni dderbyniwyd ateb i'r llythyr. Rwy'n meddwl fod hyn yn fater y dylid ei ddilyn fyny gyda'n Haelodau Seneddol, a byddaf yn gwneud hyn yn ddiymdroi."

Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Gareth Jones

“Tra’n ddiolchgar o glywed bod gan y Cyngor gynlluniau pendant i ddal i bwysu am newid ar hen drefn annerbyniol, pa gynlluniau eraill a newydd sydd gan y Cyngor a’r Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am gydraddoldeb a chyfle cyfartal o fewn y Cyngor i roi llais a hawl i bobl sydd am ddatgan heb ragfarn eu hunaniaeth ar ffurflenni swyddogol, a hefyd yr hawl i nodi ‘Cymru’ fel gwlad ar basport a chynnwys y ddraig goch ar drwyddedau gyrru yng Nghymru?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cyngorydd Nia Jeffreys

“Yn y bôn, symptom arall gwarthus o ddiffygion yn y gyfundrefn Brydeinig sy’n rheoli dros Gymru yw hyn ac mae’n sarhad ar ein pobl bod raid i ni ymgyrchu am hawl mor elfennol â’r hawl i ddweud bod ni’n Gymro neu’n Gymraes ar ffurflenni swyddogol. Rydym wedi llwyddo, gobeithio, drwy roi pwysau mawr ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol i weld y Cyfrifiad yn newid, ond sut ar y ddaear oedd corff fel y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn meddwl ei bod yn dderbyniol yn y lle cyntaf i beidio gadael i bobl Cymraeg nodi hynny yn y lle cyntaf? Mae’n dorcalonnus i mi fod rhaid i ni ymgyrchu drosodd a throsodd er mwyn cael ein cydnabod hyd yn oed ar ffurflen gan San Steffan. Nid yw San Steffan yn gweithio i bobl Cymru, ac nid yw erioed wedi gweithio i bobl Cymru. Diolch byth, mae pobl Cymru, hen ac ifanc, ar draws ein gwlad yn deffro i hyn, ond yr unig ateb go iawn i’r sarhad yma yw annibyniaeth a bod pob penderfyniad am ffurflenni a phopeth arall sy’n effeithio arnom ni yng Nghymru yn cael ei wneud gan bobl Cymru. Felly, yr unig ateb go iawn i hyn, a’r unig ateb effeithiol a thymor hir i hyn, ydi Cymru rydd, a byddaf yn dal i ymgyrchu ar y pwynt penodol yma, ac yn ehangach ar y pwynt annibyniaeth i’n gwlad.”

(5) Cwestiwn gan y Cyngorydd Menna Baines

“Yr wythnos ddiwethaf fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth newydd yn ôl awdurdod lleol. Roedd y rhain yn awgrymu y bydd cynnydd bychan yn unig, sef 0.8%, ym mhoblogaeth Gwynedd yn y cyfnod 2018–2028; ac y bydd lleihad o 2.6% ym mhoblogaeth Môn yn ystod yr un cyfnod. Sut mae hyn yn cymharu efo’r amcanestyniadau sy’n sail i’r Cynllun Datblygu Lleol yn y ddwy sir?”

Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cyngorydd Gareth Griffith

“Pan oedd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC) yn cael ei baratoi, amcanestyniadau sail-2011 oedd yn berthnasol yr adeg hynny. Roedd rhain yn dangos i’r cyfnod 2011 i 2026, sef cyfnod y CDLIC, gynnydd o oddeutu 5% ym mhoblogaeth Gwynedd a lleihad o oddeutu 0.1% ym mhoblogaeth Môn.

O ganlyniad i hyn, mi fydd ystyriaeth yn cael ei roi i’r amcanestyniadau diweddaraf fel rhan o broses Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLIC a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020. Beth bynnag fydd canfyddiadau’r AMB 2020 ar sail y gofyniad i adolygu Cynllun Datblygu Lleol o fewn 4 mlynedd i’w fabwysiadu, fe fydd yna adolygiad o’r CDLIC yn cymryd lle yn 2021.”

8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TÂL Y CYNGOR 2020/21

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion adroddiad yn argymhell i’r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu’r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2020/21.

PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu’r Datganiad o Bolisi Tâl drafft ar gyfer 2020/21 yn Atodiad 1 i’r adroddiad.

9. CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23 – ADOLYGIAD 2020/21

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2018-23 (Adolygiad 2020/21).

Nodwyd y bwriedid cychwyn y broses o adolygu'r Cynllun yn gynharach y flwyddyn nesaf.

Nodwyd bod yr argyfwng llifogydd diweddar wedi pwysleisio rôl y Cyngor ac aelodau lleol. Diolchwyd am y gwaith a gyflawnwyd, a dymunwyd y gorau i'r trigolion a'r cymunedau oedd wedi dioddef llifogydd.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd, er y cydnabyddid bod gwireddu'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd yn gyfrifoldeb ar bob un o adrannau'r Cyngor (tud 53 o'r rhaglen), bod angen penodi un person i arwain ar y gwaith ar ran y Cyngor er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu. Mewn ymateb, nodwyd y bwriedid adrodd yn fuan i'r Cabinet ar waith yr is-grŵp sy'n edrych ar newid hinsawdd. O bosib' y byddai'r Cabinet yn sefydlu bwrdd gyda Chadeirydd a swyddog penodol yn gwasanaethu'r Bwrdd, fel bod y maes yn derbyn sylw ar yr un lefel â'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl.
- Nodwyd bod uchelgais y Cyngor o weld trigolion Gwynedd yn ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd yn ganmoladwy, ond holwyd beth oedd y diffiniad o 'gyflog digonol' a pha mor gyraeddadwy ydoedd? Mewn ymateb, nodwyd bod y cynllun datblygu'r economi presennol yn diffinio swyddi cyflogaeth uchel fel rhai dros £26,000, ond bod y Cyngor, drwy ei waith datblygu'r economi, yn chwilio am swyddi gyda chyflogau llawer uwch na hynny. Ychydig o gyfleoedd cyflogaeth oedd ar gael mewn ardal wledig fel Gwynedd, ac roedd yn ofynnol parhau gyda'r gwaith o ddatblygu'r economi er mwyn anelu at y nod o sicrhau cyflogaeth dda i bobl yng Ngwynedd. Credid bod y nod yn gyraeddadwy yn y tymor hir. Ystyrid bod y Cyngor yn mynd i'r cyfeiriad iawn er gwaethaf amgylchiadau anodd eu goresgyn, ond roedd llawer o'r hyn oedd yn effeithio ar lefel tlodi yn ein hardaloedd yn dibynnu ar yr hyn oedd yn digwydd yn San Steffan.
- Holwyd a oedd y Cabinet wedi ystyried ail-gymryd tai cyngor drosodd gan fod yna arian ar gael a llog yn isel. Mewn ymateb, eglurwyd, er bod dadl, o bosib', dros gymryd y stoc tai yn ôl, nad oedd hynny'n flaenoriaeth i Wynedd, ac roedd gan y Cyngor rôl bwysig o ran datblygu syniadau gwahanol ac arloesol ar sut i ddarparu tai yn y llefydd iawn ac fel mae pobl eu hangen. Roedd yna amrywiaeth o ffyrdd o wneud hynny, ac edrychid ymlaen at weld y Cynllun Gweithredu Tai yn fuan.
- Croesawyd y Cynllun Merched mewn Arweinyddiaeth (Blaenoriaeth Gwella 3) a gofynnwyd i'r Aelod Cabinet ymhelaethu ar gynnydd y gwaith. Mewn ymateb, nodwyd bod dau weithdy - un ar gyfer merched a'r llall ar gyfer dynion, wedi amlygu mai diffyg hyder, cyfrifoldebau gofalu a chydbwysedd bywyd personol a gwaith oedd y prif rwystrau i ferched ymgeisio am swyddi uwch o fewn y Cyngor. Yn dilyn y gweithdai, datblygwyd cynllun gweithredu drafft ar y cyd, ac un o brif flaenoriaethau'r cynllun hwnnw fyddai cyflwyno rhaglen datblygu potensial i ferched. Roedd yna fwrriad hefyd i adolygu'r trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn ystyried a oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r rhwystrau o ofalu am blant a pherthnasau wrth i ferched ystyried eu gyrfaedd. Yn ogystal â hynny, bwriedid edrych yn fanylach ar y trefniadau gweithio'n hyblyg, absenoldeb tadolaeth a mamolaeth ayb, cyfrannu at waith Grŵp Prosiect Amodau Gwaith y Cyngor a chynnig arweiniad o bersbectif merched yn y gweithlu. Bwriedid hefyd creu Fforwm i ferched ac roedd yna rôl wleidyddol i'r Grŵp Cynghorwyr sy'n Ferched fod yn annog mwy o ferched i fod yn gynghorwyr.
- Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet at rai o'r camau a gymerwyd o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd i ddod â'r argyfwng hinsawdd i mewn i

Gynllun y Cyngor. Manylwyd ar swyddogaeth statudol ac amserol Ymgynghoriaeth Gwynedd fel awdurdod llifogydd y sir. Cydymdeimlwyd yn ddwys â'r cymunedau hynny oedd wedi dioddef llifogydd yn ddiweddar a diolchwyd i weithwyr y Cyngor oedd wedi bod allan mewn amodau afiach yn ceisio sicrhau bod cymunedau'r sir yn aros yn ddiogel. Nodwyd bod yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eisoes yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o leihau allyriadau carbon yn y sir, megis drwy newid goleuadau stryd i oleuadau LED, edrych ar ddi-garboneiddio cerbydau, gan gynnwys ymchwilio i hydrogen fel tanwydd posib' ac edrych i mewn i'r potensial o gynnig defnydd cymunedol o'r fflyd. Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn debygol o gyrraedd ei darged ailgylchu o 64% erbyn diwedd y mis, a thros y flwyddyn nesaf, bwriedid datblygu strategaeth wastraff newydd fyddai'n rhoi'r pwyslais ar ail-dddefnyddio yn ogystal ag uchafu ailgylchu. Dymunid trafod syniadau gyda'r aelodau a'r cymunedau roeddent yn gynrychioli, ac roedd yna awydd hefyd i gymryd pob cyfle i uchafu pwysigrwydd bioamrywiaeth.

- Croesawyd dyfodiad cronfa Hunan Adeiladu Llywodraeth Cymru, ond nodwyd bod hynny'n gwrthdaro gyda'r trafferthion roedd rhai pobl ifanc yn ardal Llŷn wedi wynebu wrth fynd drwy'r broses gynllunio. Holwyd a oedd yna fwiad i ail-edrych ar y polisiâu er mwyn gweld a ellid cefnogi'r math yma o bobl i sicrhau cartrefi addas ac o safon o fewn eu cymunedau. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu'n gyson, ac y byddai yna gyfle i'r aelodau edrych ar bob polisi o fewn y cynllun hwnnw. Er y bu cryn edrych ymlaen at ddyfodiad y gronfa hunan-adeiladu, roedd rhai o'r cyfyngiadau a osodwyd ar y gronfa gan y Llywodraeth yn golygu nad oedd mor hyblyg â hynny. Er hynny, roedd y Cyngor yn edrych ar bob cyfle i fanteisio ar y gronfa a deallid bod modd bwrw ymlaen gydag un cynllun o bosib'.

PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2019-23 (Adolygiad 2020/21).

10. CYLLIDEB 2020/21

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid:-

- Adroddiad yn argymhell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2020/21;
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 3.9%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i staff yr Adran Gyllid, ac yn benodol yr Uwch Reolwr Cyllid a gweddill y tîm cefnogol, am eu holl waith yn absenoldeb y Pennaeth Cyllid am gyfnod.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd bod Fairbourne wedi dod yn adnabyddus dros y byd fel pentref heb ddyfodol, a bod effaith Cynllun Rheoli Traethlin y Cyngor yn golygu bod tai yn Fairbourne wedi colli bron i draean o'u gwerth. Roedd y Cyngor Cymuned yn flin bod y Dreth Gyngor yn parhau i godi, er bod y pentref wedi'i gondemnio gan Gyngor Gwynedd, ac yn galw am ostyngiad yn y Dreth. Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn bwysig tanlinellu nad y Cyngor oedd wedi condemnio Fairbourne. Yn hytrach, roedd y Cyngor wedi amlygu'r risg roedd y pentref yn wynebu i'r dyfodol. O ran y Dreth Gyngor, yr unig ffordd o gael gostyngiad fyddai i'r Prisiwr edrych eto ar y bandiau, a rhoddwyd addewid y byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r Prisiwr ar ran pobl Fairbourne i ofyn iddynt ddod yno i edrych ar y sefyllfa.
- Nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn derbyn a derbyn toriadau ers 12 mlynedd bellach, a bod y codiadau parhaus yn y Dreth yn cael effaith ddifrifol ar y bobl hynny sydd ar gyflogau bychain. Holwyd pryd roedd y Cyngor am sefyll fel un yn erbyn y toriadau sy'n dod o Gaerdydd a San Steffan? Mewn ymateb, nodwyd y deallid y

sylwadau, ond bod rhaid i'r Cyngor osod cyllideb hafal, a'i fod, trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o gyrff eraill, yn lloio'n barhaus.

- Nodwyd bod y Dreth Gyngor ar Fand D yng Ngwynedd wedi codi o £889 yn 2004 i £1,699 yn 2018. Dim ond 5 Cyngor trwy Gymru oedd â lefel treth Band D uwch na Gwynedd, ac roedd gan y sir hon ardaloedd difreintiedig iawn. Nid oedd cyflogau pobl gyffredin Gwynedd wedi codi, ac er bod staff y Cyngor wedi derbyn codiad yn eu cyflog yn ddiweddar, roedd hynny'n cael ei gymryd yn ôl drwy'r codiad yn y dreth. Roedd effaith codi trethi, yn ogystal â chodi tâl am barcio yn y trefi, yn cael effaith enfawr ar fusnesau Gwynedd. Teimlid nad oedd unrhyw un yn cymryd cyfrifoldeb dros drethi yng Nghymru ac roedd Llywodraeth Cymru'n parhau gyda'r model o roi rhyddid i'r cynghorau godi'r dreth heb sylw i'r effaith ar bobl. Roedd llai o incwm gwario yn golygu bod llai o wariant yn digwydd yn ein heconomi, ac roedd hynny, yn ei dro, yn golygu llai o swyddi i bobl, llai o bobl yn talu trethi, ayb.
- Nodwyd bod prif wariant y Cyngor yn y maes gofal, yn enwedig yn y maes henoed, ac o ddeall hynny, na welid sut y gallai'r cyhoedd wrthwynebu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion am wrando ar farn y craffwyr gofal a gwneud eu gorau dros bobl Gwynedd.
- Nodwyd bod y Cyngor wedi colli tua £70m dros y 10 mlynedd ddiwethaf, a bod gwaith mawr yn mynd ymlaen drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i geisio darbwyllo'r gwleidyddion sy'n gwneud y penderfyniadau yng Nghaerdydd o'r angen am gyllido priodol i lywodraeth leol. Roedd llywodraeth leol wedi bod ar waelod y rhestr bob tro, ond eleni, yn sgil cyflwyno achos cryf iawn i'r Llywodraeth, fe lwyddwyd i gael setliad grant ychydig fwy teg. Pwysleisiwyd y dylid ymfalchio yn effeithiolrwydd y Cyngor hwn a'i gadernid cyllidol, a nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn cael ei gydnabod fel un o'r cynghorau mwyaf darbodus a chyfrifol yng Nghymru.
- Mewn ymateb i sylw bod yr argymhelliad i gynyddu'r dreth 3.9% yn dipyn uwch na lefel chwyddiant cyffredinol, oedd ychydig dros 2.5%, eglurwyd mai'r cynnydd yn y galw yn y meysydd plant ac oedolion oedd yn bennaf gyfrifol am hyn.
- Nodwyd nad oedd Llywodraeth San Steffan yn edrych ar ôl Cymru o gwbl. Cymru oedd â'r tlodi plant gwaethaf ym Mhrydain ac roedd chwarter poblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi bellach. Pobl Cymru oedd â'r disgwyliad oes isaf a Chymru oedd y wlad fwyaf ddifreintiedig yn economaidd ym Mhrydain, gyda'r tai mwyaf llaith ac oer yn Ewrop. Roedd iechyd plant Cymru yn gwaethygu yn flynyddol ac roedd Cymru hefyd yn colli ei hiaith.
- Pwysleisiwyd na ddymunai neb weld cynnydd yn y Dreth Gyngor, ond nid oedd gan y Cyngor ddewis arall gan fod y Fformiwla Barnett yn rhoi Cymru ar waelod y pentwr bob tro. Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig rhoi cyhoeddusrwydd ledled y sir i'r ffaith bod y Siambr hon a'r Cyngor hwn yn herio'r Fformiwla.
- Gan gyfeirio at fid cyfalaf 1 – Darpariaeth pwyntiau gwefru cerbydau cyhoeddus (Atodiad 2c i'r adroddiad), sylwyd nad oedd nifer o feysydd parcio yn gymwys am grant, a holwyd beth oedd y meini prawf ar gyfer cymhwyso ar gyfer hynny. Mewn ymateb, eglurwyd bod grant ar gael gan y Llywodraeth ar gyfer darparu rhwyfaint o bwntiau gwefru, ond roedd y Cyngor, a hefyd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn dymuno cyflenwi pwyntiau gwefru mewn mannau nad oedd yn gymwys am yr arian grant.
- Nodwyd y cafwyd trafodaeth hirfaith a buddiol yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynglŷn â'r modd o osod y dreth, ac y daethpwyd i gytundeb bod 3.5% yn taro'r fargen. Yn fuan ar ôl hynny, daeth bid ychwanegol i mewn gan yr Adran Dai, a deallid mai hynny oedd y rheswm pam bod y cynnydd yn y Dreth a argymhellid bellach yn 3.9%, sef 0.4% yn uwch na'r hyn a argymhellwyd yn wreiddiol. Nid oedd yn glir beth oedd amcan y bid ychwanegol, ond ni chredid y byddai'n ddigon o gyfiawnhad i gefnogi cynnydd o 3.9% yn y Dreth. I'r diben hwnnw, nododd yr aelod a wnaeth y sylw y byddai'n cynnig cynnydd o 3.5%. Mewn ymateb, eglurwyd mai pwrpas bid yr Adran Tai oedd ariannu llety dros dro i bobl sy'n ddigartref, a phe na fyddai'r Cyngor yn ariannu'r bid, byddai'r bobl hynny'n

parhau'n ddigartref. Eglurwyd hefyd bod y bid wedi dod i law'r diwrnod ar ôl y gyntaf yn y gyfres o weithdai aelodau i drafod y gyllideb, a bod hynny wedi'i gyfathrebu drwy e-bost i'r aelodau fu yn y gweithdy cyntaf hwnnw erbyn dyddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, lle bu cefnogaeth i'r cynnig o gynnydd 3.9%. O ran cynnig gwelliannau i'r gyllideb a'r cynnydd yn y Dreth, eglurwyd bod y gyfundrefn yn gofyn am rybudd ysgrifenedig o 2 ddiwrnod i gynnig gwelliant, fel bod cyfle i ystyried yr ymhllygiadau.

- Nodwyd bod y Cyngor wedi pleidleisio'n unfrydol yn gynharach dros fabwysiadu Cynllun y Cyngor 2019-23 (Adolygiad 2020/21), felly byddai'n synhwyrol i'r aelodau bleidleisio dros y gyllideb fyddai'n caniatáu i'r Cyngor wireddu'r cynlluniau hynny.

Tra'n ategu'r pryderon sylweddol bod y Cyngor wedi gorfod torri flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac yn cytuno bod parhau i herio'r Llywodraethau yng Nghaerdydd a San Steffan yn gwbl angenrheidiol, mynegodd sawl aelod eu parodrwydd i gefnogi'r gyllideb, ond gyda chalon drom.

PENDERFYNWYD:

1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-
 - (a) Sefydlu cyllideb o £261,837,750 ar gyfer 2020/21, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £187,579,040 a £74,258,710 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 3.9%.
 - (b) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £44,247,260 yn 2020/21 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
